# JONES, THOMAS JESSE (1873 - 1950) Cymro a gymerth ddiddordeb arbennig yng nghwestiwn addysg Negroaid yn U.D.A. ac Affrica

**Enw:** Thomas Jesse Jones
**Dyddiad geni:** 1873
**Dyddiad marw:** 1950
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Cymro a gymerth ddiddordeb arbennig yng nghwestiwn addysg Negroaid
**Maes gweithgaredd:** Addysg
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 4 Awst 1873 yn Llanfachreth, sir Fôn. Yn 11 oed ymfudodd i U.D.A. gyda'i fam weddw, brawd, a dwy chwaer, gan ymsefydlu yn Ohio.

Bu ym mhrifysgolion Washington a Lee (Virginia) a Columbia (Efrog Newydd), gan raddio yn M.A., Ph.D., ac yn B.D. (Union Theological Seminary). Bu am saith mlynedd yn yr Hampton Institute, Virginia, un o'r colegau cyntaf i Negroaid; yno y deffrowyd ynddo ddiddordeb arbennig yng nghwestiwn addysg y dyn du. Bu'n gwasanaethu'r United States Census Bureau a thalu sylw arbennig yno i ystadegau yngl n â'r dynion duon.

Yn 1913 dechreuodd waith ymchwil ar ran yr United States Bureau of Education a'r Phelp-Stokes Fund; ym mhen amser cyhoeddodd y Bureau of Education ddwy gyfrol o dan yr enw *Negro Education in the United States*; yn ystod Rhyfel 1914-18 bu'n gwasanaethu yn adran y Y.M.C.A. a oedd yn llafurio ymhlith milwyr Negro yn Ewrop; bu iddo hefyd ran bwysig yn ffurfio'r ' Commission of Inter-Racial Cooperation ' ddiwedd y rhyfel hwnnw. Bu'n arwain dau gomisiwn a aeth i Affrica ar ran y Phelps-Stokes Fund ar gais cymdeithasau cenhadol ym Mhrydain ac America a chyda chydweithrediad Swyddfa'r Trefedigaethau, Llundain.

Pan gyhoeddwyd adroddiad y comisiwn ar addysg yng ngorllewin, de, a chanolbarth Affrica yn 1922, gofynnodd Swyddfa'r Trefedigaethau (Llundain) iddo wneuthur astudiaeth gyffelyb yn Nwyrain Affrica; cafwyd adroddiad ar Kenya, Uganda, Tanganyika, Rhodesia, ac Ethiopia yn 1925. Canlyniad cyhoeddi'r ddau adroddiad ydoedd sefydlu'r Colonial Education Department. Anrhydeddwyd Dr. Jesse Jones yn 1925 gan lywodraeth Prydain drwy ei wahodd i ginio arbennig yn Lancaster House, Llundain. Parhaodd ei gysylltiad â'r Phelps-Stokes Fund am 33 mlynedd.

Bu'n gwneuthur gwaith ymchwil i gyflwr addysg yn Liberia (Affrica) hefyd; canlyniad hyn oedd sefydlu'r Booker Washington Institute yn Kakata. Bu hefyd yn gwneuthur ymchwil yng ngwlad Groeg a rhai o wledydd eraill y Dwyrain Canol ar ran y Near East Foundation. Yn 1932 bu'n darlithio o dan nawdd y Carnegie Foundation ym mhrifysgolion De Affrica; yn 1937 efe oedd pennaeth comisiwn a fu'n astudio pethau yngl n â'r llwyth o Indiaid yr America a elwir yn Navajo. Cyhoeddodd *Four Essentials of Education*, 1926, a *Essentials of Civilisation*.

Bu farw yn ei gartref yn ninas Efrog Newydd yn Ionawr 1950.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

*The Times*, 17 Ionawr 1950

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 22216973

Wikidata: Q20738164

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Rhannu